# LC1476

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diffinio "corff GIG" a "triniaeth feddygol sylweddol" at ddibenion darpariaethau penodol yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf") sy’n ymdrin ag Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ("EAGMau"). Mae’r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth hefyd ynghylch pwy y gellir ei benodi i weithredu fel EAGM ac ynghylch swyddogaethau EAGM pan fo wedi’i gyfarwyddo i gynrychioli person mewn achos penodol. Mae’r darpariaethau ynglyn â phenodiad a swyddogaethau EAGM yn gymwys pan fo’r EAGM wedi’i gyfarwyddo o dan adrannau 37 i 39 o’r Ddeddf neu o dan reoliadau a wnaed yn rhinwedd adran 41 o’r Ddeddf.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Enwir Adran 12 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 fel pwer sy’n galluogi’r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud. Pwer gwneud cyfarwyddiadau yw’r adran honno, nid pwer gwneud rheoliadau. Mae adran 204 o’r Ddeddf honno’n gwneud darpariaethau i gyfarwyddiadau gael eu gwneud drwy gyfrwng rheoliadau, ac os caiff adran 12 ei henwi gan ddibynnu ar adran 204, dylid ei ychwanegu at y rhestr o bwerau a enwir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg rheoliad 3(b) yn cyfeirio at "an NHS trust", tra bo’r Gymraeg yn cyfeirio at "Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg rheoliad 4(2) yn nodi mai "Serious medical treatment is treatment that…" ac yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r math o driniaeth a gaiff ei chynnwys yn y diffiniad. Mae'r testun Cymraeg, ar y llaw arall, yn nodi mai "triniaeth yw triniaeth feddygol sylweddol sy'n…". Hyd yn oed os yw hyn yn ramadegol gywir, mae'r ystyr yn annelwig, a dweud y lleiaf. Byddai adlewyrchiad uniongyrchol o'r testun Saesneg - "triniaeth feddygol sylweddol yw triniaeth sy'n…" yn llawer haws i'w ddilyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Yn y testun Saesneg, mae rheoliadau 8(4) a 9(4) yn cynnwys darpariaethau wedi'u drafftio mewn ffordd debyg sy'n nodi "an IMCA may not be instructed under this regulation where an IMCA is instructed in accordance with …". Ymddengys mai'r bwriad yw na ddylai dau EAGM gael cyfarwyddyd mewn perthynas â'r un person. Byddai'n fwy eglur petai'n nodi naill ai "an IMCA may not be instructed under this regulation where an IMCA has been instructed in accordance with …" (sef y ffurf a ddefnyddir yn y testun Cymraeg) neu "an IMCA may not be instructed under this regulation where an IMCA is already instructed in accordance with …". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Nid yw'r pwerau a enwyd i wneud y Rheoliadau hyn mewn grym eto. Mae'r prif bwerau (adrannau 35 i 41) yn ddarostyngedig i'w cychwyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Gorchymyn Cychwyn priodol yn ffurfio rhan o'r un grwp o Offerynnau Statudol â'r Rheoliadau hyn. Yn y cyfamser mae adran 13 o Ddeddf Dehongli 1978 yn darparu'r pwer i wneud is-ddeddfwriaeth yn barod ar gyfer y gorchymyn cychwyn, er bod rhaid cychwyn y pwerau cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

Fodd bynnag, gan yr Arglwydd Ganghellor y mae'r pwer i gychwyn adrannau 64(1) a 65(1), ac mae'n rhaid i'r pwer hwnnw gael ei arfer cyn i'r Rheoliadau hyn, a wnaed gan ddibynnu'n rhannol ar yr adrannau hynny, ddod i rym ar 1 Hydref 2007.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mawrth 2007